**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **12 MAWRTH 2009** |
| TEITL | **CYNNYRCH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **AMLINELLU GWAITH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD HYD AT 28 CHWEFROR 2009** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR ARCHWILIO A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A CHEFNOGI'R ARGYMHELLION SYDD EISIOES WEDI'U CYFLWYNO I'R GWASANAETHAU PERTHNASOL ER GWEITHREDIAD** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o'r 1$^{af}$ Rhagfyr 2008 hyd at 28$^{ain}$ Chwefror 2009.

## 2. GWAITH A GWBLHAWYD YN Y CYFNOD

2.1 Cwblhawyd y gwaith canlynol yn y 3 mis hyd at 28$^{ain}$ Chwefror 2009:

| **Disgrifiad** | **Nifer** |
|---|---|
| Adroddiadau ffurfiol am Archwiliadau a Gynlluniwyd | 10 |
| Adroddiadau eraill (memoranda ayb) | 4 |
| Archwiliadau Dilyniant | 2 |

Ceir manylion pellach ar y gwaith yma yng nghorff yr adroddiad hwn ac yn yr atodiadau amgaeëdig.

## 2.2 Adroddiadau Archwilio

2.2.1 Mae'r tabl canlynol yn gosod allan yr archwiliadau a gwblhawyd yn y cyfnod hyd at 28ain Chwefror 2009, gan ddangos y categori barn perthnasol a chyfeiriad i'r atodiad perthnasol.

| CYFADRAN | GWASANAETH | TEITL | BARN | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Adnoddau | Cefnogaeth Gofal Cwsmer | Gwaredu Eiddo'r Cyngor | **B** | Atodiad 1 |
| Adnoddau | Cyllid | Trosglwyddiadau Mewnol | **B** | Atodiad 2 |
| Adnoddau | Cyllid | Treth Cyngor – Cofrestru Eiddo Newydd | **B** | Atodiad 3 |
| Adnoddau | Gweinyddol a Gwarchod y Cyhoedd | Pridiannau Tir | **B** | Atodiad 4 |
| Amgylchedd | Ymgynghoriaeth Gwynedd | Cydymffurfiaeth â rheoliadau Construction Design Management (CDM) | **B** | Atodiad 5 |
| Datblygu | Dysgu Gydol Oes | Canolfan Awyr Agored Rhyd Ddu | **B** | Atodiad 6 |
| Gofal | Tai | Cyfraniadau Gwresogi gan Denantiaid | **B** | Atodiad 7 |
| Gofal | Tai | Menter 'Yma i Helpu' | **B** | Atodiad 8 |
| Gofal | Gwasanaethau Cymdeithasol | Costau Gweithwyr Cefnogol | **B** | Atodiad 9 |
| Gofal | Gwasanaethau Darparu | Canolfannau Dydd a Gweithdai Anabledd Dysgu Ardal Dwyfor | **B** | Atodiad 10 |

2.2.2 Mae categorïau barn yr adroddiadau yn datgan y canlynol:

Barn "A" Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.

Barn "B" Mae rheolaethau mewn lle, a gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol gan fod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau.

Barn "C" Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth.

Barn "CH" Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan nad oes rheolaethau derbyniol yn bodoli, a darganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth hyn.

2.2.3 Yn ogystal â'r uchod, cynhaliwyd yr archwiliad isod. Yn yr achos yma, cynhyrchwyd memorandwm yn hytrach nag adroddiad llawn:

- Grant Addysg Ôl-16 *(Cyfadran Datblygu)*
- Systemau Bwydo'r Prif Gyfriflyfr – Incwm o Systemau'r Arianwyr (CRIS a Remit) *(Cyfadran Adnoddau)*
- Systemau Bwydo'r Prif Gyfriflyfr – Cysoni Trosglwyddiadau o'r System Cyflogau a Pensiynau (Cyborg) *(Cyfadran Adnoddau)*
- Uned Taliadau – Rhannu Dyletswyddau *(Cyfadran Adnoddau)*

## 2.3 Archwiliadau Dilyniant

2.3.1 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r gwaith dilyniant a gwblhawyd yn ystod y cyfnod:

| TEITL YR ADRODDIAD | CYFADRAN | GWASANAETH | CATEGORI BARN GWREIDDIOL | BARN DILYNIANT |
|---|---|---|---|---|
| Rheolaeth Fflyd | Amgylchedd | Priffyrdd a Bwrdeistrefol | B | **Derbyniol** |
| Prosesu Costau Teithio Cyfadran yr Amgylchedd | Amgylchedd | Uned Gefnogol Amgylchedd | C | **Derbyniol** |

2.3.2 Gosodir casgliadau gwaith dilyniant mewn un o bedwar categori:

**Rhagorol** – pob un o'r argymhellion wedi eu gweithredu yn unol â'r disgwyl.

**Derbyniol** – y rhan fwyaf o'r argymhellion, gan gynnwys y mwyafrif o'r argymhellion "hanfodol", wedi eu gweithredu yn ôl y disgwyl.

**Anfoddhaol** – nifer o'r argymhellion heb eu gweithredu.

**Annerbyniol** – y mwyafrif o'r argymhellion (gan gynnwys argymhellion pwysig) heb eu gweithredu, a dim tystiolaeth o ymdrech i wella rheolaeth fewnol.

2.3.3 Mae'r rhestr isod yn dangos yr Adroddiadau Barn 'C' neu 'CH' a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio fel atodiadau i'r adroddiadau chwarterol, lle nad yw'r adroddiad dilyniant wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor eto. Mae'r rhestr yn dangos y dyddiad sy'n darged cwblhau pob un o'r archwiliadau dilyniant hyn:

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Mawrth 2008**
System Tracio Gohebiaeth Corfforaethol

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Mawrth 2009**
Rheoli Cytundebau Caffael Corfforaethol

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 30 Mehefin 2009**
Defnydd Ymgynghorwyr
Cyfrifiaduron Arunig
System Dyledwyr - Trefniadau Atal Dyledion
Rhoddion i Staff Cartrefi Preswyl

## 3. GWAITH AR Y GWEILL

3.1 Roedd y gwaith canlynol ar y gweill ar 1[af] Mawrth 2009.

### 3.2 Adroddiadau Drafft wedi eu rhyddhau

- Diogelwch Rhwydwaith (gan gynnwys Mynedfa Citrix) *(Cyfadran Adnoddau)*
- Effeithlonrwydd y Strwythur Codio *(Cyfadran Adnoddau)*
- TGCh: Rhannu Gwybodaeth *(Cyfadran Adnoddau)*
- Rheolaethau Trwyddedu Meddalwedd (Ysgolion) *(Cyfadran Adnoddau)*
- Rheolaethau Trwyddedu Meddalwedd (Corfforaethol) *(Cyfadran Adnoddau)*
- Anabledd Dysgu - Canolfannau Dydd (Arfon) *(Cyfadran Gofal)*
- Rheolaeth Cytundeb Apetito *(Cyfadran Gofal)*
- Trwyddedau Adeiladwaith ar y Stryd *(Cyfadran Amgylchedd)*
- Defnydd Isgontractwyr, Uned Darparu Gwaith *(Cyfadran Amgylchedd)*
- Treuliau Aelodau *(Cyfadran Adnoddau)*
- Cofrestr Contractau Corfforaethol *(Corfforaethol)*

### 3.3 Archwiliadau yn mynd rhagddynt

- Prosiect System TG Gwasanaethau Darparu *(Adran y Prif Weithredwr)*
- Trosolwg o Deithio Cyffredinol *(Corfforaethol)*
- Cyfrannu at Ddarparu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol *(Corfforaethol)*
- Rhestrau Contractwyr Cymeradwy *(Corfforaethol)*
- Contractau: Arian Dargadw *(Corfforaethol)*
- Rheoli Contractau: Adrodd ar Orwariant *(Corfforaethol)*
- Fformiwla Cyllido Ysgolion *(Cyfadran Datblygu)*
- Grant Gwella Adeiladau Ysgolion *(Cyfadran Datblygu)*
- Casglu Data Gwasanaethau Cymdeithasol at bwrpasau Rheoli Perfformiad *(Cyfadran Gofal)*
- Grantiau Gwasanaethau Cymdeithasol *(Cyfadran Gofal)*
- Systemau derbyn arian *(Cyfadran Adnoddau)*
- Taliadau Dewisol *(Cyfadran Adnoddau)*
- Trosglwyddiadau o systemau ariannol ysgolion *(Cyfadran Adnoddau)*
- Trefniadau Cychwyn, Addasiadau a Therfynu Gweithwyr *(Cyfadran Adnoddau)*
- Menter Twyll Genedlaethol (NFI) *(Corfforaethol)*
- TGCh: Gwaith Gwrth-Dwyll *(Corfforaethol)*
- Rhaglen Cymunedau'n Gyntaf *(Cyfadran Datblygu)*
- Cynllunio - Gorfodaeth *(Cyfadran Amgylchedd)*
- Cyfrifon Terfynol: Uned Adfywio *(Cyfadran Datblygu)*
- Dyletswyddau Llywodraethwyr (Ysgolion Cynradd) *(Cyfadran Datblygu)*
- Rheolaeth Gyllidebol *(Cyfadran Datblygu)*
- Gosodiadau Ysgolion Cynradd *(Cyfadran Datblygu)*
- Rheolaeth Cyflogau Gofalwyr Cartref *(Cyfadran Gofal)*
- Eiddo Gwasanaethau Darparu - Comisiynu Gwaith *(Cyfadran Gofal)*
- Anabledd Corff - Cytundeb Gwasanaeth Cyd-Storfa *(Cyfadran Gofal)*
- Anabledd Dysgu - Gofal Dydd Preifat *(Cyfadran Gofal)*
- Cofrestr Anabledd Dysgu - rheolaethau sicrhau cyflawnder *(Cyfadran Gofal)*
- Plant - Lleoliadau All-Sirol *(Cyfadran Datblygu)*
- Iechyd a Diogelwch Gweithwyr Gofal *(Cyfadran Gofal)*
- Gweinyddiaeth a Rheolaeth Hyfforddiant Gwynedd *(Cyfadran Datblygu)*
- Pryniant Bwyd a Rheolaeth Stoc *(Cyfadran Gofal)*
- Cynnal Tiroedd *(Cyfadran Amgylchedd)*
- Incwm Ffioedd Trafnidiaeth *(Cyfadran Amgylchedd)*
- Siwrne Saff *(Cyfadran Amgylchedd)*
- Contractau Cyfredol: Ymgynghoriaeth Gwynedd *(Cyfadran yr Amgylchedd)*
- Cyfrifon Terfynol: Ymgynghoriaeth Gwynedd *(Cyfadran yr Amgylchedd)*
- Contractau SBIG *(Corfforaethol)*
- Cyfrifon Terfynol: Tai *(Cyfadran Gofal)*

- Cynnal a Chadw Tai Cyngor - Llif Gwaith *(Cyfadran Gofal)*
- Dilyniant - Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru *(Cyfadran yr Amgylchedd)*
- Dilyniant - Iechyd a Diogelwch Gweithwyr Llaw *(Cyfadran yr Amgylchedd)*

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar waith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1$^{af}$ Rhagfyr 2008 i 28$^{ain}$ Chwefror 2009, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r argymhellion sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.

## GWAREDU EIDDO'R CYNGOR
## Cyfadran Adnoddau

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau'r Uned Eiddo o waredu eiddo neu dir y Cyngor yn cydymffurfio gyda'r rheolaethau a'r ddeddfwriaeth berthnasol.

Cwmpas yr Archwiliad

Adolygwyd sampl o werthiannau eiddo a thir y Cyngor a wnaethpwyd yn ystod blwyddyn ariannol 2008-09, a sampl o dir sydd wedi ei waredu am lai na'r gydnabyddiaeth orau yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn ogystal, adolygwyd trefniadau'r Uned Eiddo o adrodd ar dargedau sydd yn ymwneud â derbyniadau o werthiant eiddo.

Prif Ddarganfyddiadau

Adolygwyd sampl o 7 werthiannau. Gwelwyd fod trefniadau'r Uned Eiddo o waredu eiddo yn y sampl yn cydymffurfio gyda'r rheolaethau a'r ddeddfwriaeth berthnasol. Gwelwyd bod tystiolaeth yn y ffeiliau ynghylch prisiad yr eiddo, yn ogystal â rhesymeg am waredu'r eiddo. Cadarnhawyd bod y Polisi Gwaredu Eiddo am Lai na'r Gydnabyddiaeth Orau yn cydymffurfio gyda'r amodau a osodwyd yn y Caniatâd Gwaredu Cyffredinol (Cymru) 2003. Fodd bynnag, nid yw'r Polisi yn gyfredol, e.e. nid yw'r Grwp Rheoli Asedau'n bodoli ac nid yw'r protocol arfaethedig a geir yn rhan 5 o'r Polisi yn adlewyrchu'r gwir drefn a ddilynir

Cadarnhawyd fod trefniadau'r Rheolwr Eiddo Corfforaethol o adrodd yn chwarterol ar dargedau sydd yn ymwneud â derbyniadau yn briodol, ond dylid addasu geiriad un targed. Mae'r Uned yn rhagori ar y targedau a osodwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol 2008-09.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn nhrefniadau gwaredu eiddo'r Cyngor, gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae'r argymhellion yn y cynllun gweithredu fel a ganlyn:**

- **Dylid diweddaru'r Polisi Gwaredu Eiddo am Lai na'r Gydnabyddiaeth Orau fel ei fod yn adlewyrchu trefniadau'r Uned ac felly'n sicrhau canllawiau tryloyw.**
- **Dylid addasu geiriad y targed sydd yn ymwneud â "chyfanswm holl dderbyniadau cyfalaf", er mwyn sicrhau ei fod yn eglur y dylid cynnwys holl dderbyniadau o werthiant eiddo wrth gyfrifo perfformiad yr Uned yn erbyn y targed.**

Llyfryddiaeth:

Cynllun a Pholisïau Rheoli Asedau Eiddo: Cyhoeddwyd mis Hydref 2005

# TROSGLWYDDIADAU MEWNOL
## Cyfadran Adnoddau

<u>Bwriad yr Archwiliad</u>
Bwriad yr archwiliad yw sicrhau fod trefniadau priodol o gwblhau trosglwyddiadau mewnol rhwng Gwasanaethau'r Cyngor, gan sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r canllawiau, yn ogystal â sicrhau fod rheolaeth briodol ar y systemau cyfrifiadurol sydd yn creu a chwblhau trosglwyddiadau mewnol o fewn rhai Gwasanaethau.

<u>Cwmpas yr Archwiliad</u>
Cynhaliwyd yr archwiliad drwy adolygu trefniadau'r Gwasanaethau o gwblhau'r ffurflenni trosglwyddiadau mewnol yn ogystal â'r trefniadau i lwytho'r data i'r cyfriflyfr er mwyn cwblhau'r trosglwyddiad. Adolygwyd trefniadau tair Uned sydd yn defnyddio systemau cyfrifiadurol i gwblhau trosglwyddiadau mewnol.

<u>Prif Ddarganfyddiadau</u>
Daeth yn amlwg yn ystod yr archwiliad nad yw'r ffurflenni a'r canllawiau sydd ymwneud â throsglwyddiadau mewnol yn gyfredol (sef ffurflenni "TR296 Cais am Drosglwyddiad Mewnol" a "TR307 Rheolaeth Mewnbwn Swp Trosglwyddiad Mewnol") ac o ganlyniad mae angen addasu'r ffurflenni a'r canllawiau.

Mae'n fwriad gan y Gwasanaeth Cyllid i addasu'r trefniadau trosglwyddiadau mewnol presennol, gan greu system gyfrifiadurol gorfforaethol fydd yn dileu'r angen i ddefnyddio ceisiadau papur. Gan gadw hyn mewn golwg, nid yw'n ymarferol gweithredu ar rai o'r argymhellion yn yr adroddiad hyd y cwblheir yr adolygiad a phenderfynu os dylid creu system gyfrifiadurol ai peidio.

Adolygwyd systemau cyfrifiadurol tair Uned a chanfuwyd fod rheolaeth briodol ar y systemau. Amlygwyd bod risg yn bodoli o ddefnyddio'r un cyfeirnod dwywaith ar gyfer y trosglwyddiadau, ond gwelwyd fod y Gwasanaethau wedi ceisio lliniaru'r risg.

**<u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(B) Barn yr archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhrefniadau trosglwyddiadau mewnol y Cyngor, gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae rhai o'r argymhellion sydd wedi eu cynnwys yn y cynllun gweithredu fel a ganlyn:**

- **Dylid ystyried fod swyddogion yr Uned Taliadau'n stampio'r ceisiadau TR296 unigol, yn enwedig os oes mwy nac un cais mewn swp er mwyn cadarnhau bod y manylion wedi eu mewnbynnu i'r cyfriflyfr.**
- **Dylid defnyddio'r "sub-type" cywir ar gyfer cofnodi trosglwyddiadau mewnol y Gwasanaeth Darparu yn y cyfriflyfr.**

# TRETH CYNGOR – COFRESTRU EIDDO NEWYDD
## Cyfadran Adnoddau

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod pob safle sydd wedi derbyn caniatâd cynllunio a/neu rheolaeth adeiladu, yn cael eu harolygu yn rheolaidd gan yr Arolygwyr Treth Cyngor a bod datblygiad yr annedd yn cael ei hadrodd a'i gofnodi yn y system briodol. Sicrhau yn ogystal fod perchnogion yr eiddo yn cael eu bilio gan yr Uned Trethi ar ôl cwblhau'r annedd.

Cwmpas yr Archwiliad

Ymholi beth yw'r trefniadau ar gyfer cofrestru eiddo newydd a dewis sampl o eiddo ar hap, i wirio a chadarnhau bod y trefniadau monitro priodol wedi eu sefydlu.

Prif Ddarganfyddiadau

Darganfuwyd bod y trefniadau ar y cyfan yn ddigonol a bod y swyddogion yn monitro datblygiadau ar eiddo newydd. Gwelwyd bod yr arolygwyr yn ymweld â'r eiddo fel bo'r angen a bod manylion o'r ymweliadau wedi eu cofnodi yn system Academy gyda nodyn o'r dyddiad ymweld nesaf. Cedwir manylion llawn am eiddo newydd ar daenlen a bydd y wybodaeth yn cael ei ddiweddaru ar sail reolaidd ar ôl derbyn gwybodaeth gan wasanaethau eraill o'r Cyngor ynghyd ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn y trefniadau sy'n bodoli ar gyfer cofrestru eiddo newydd i ddibenion anfonebu Treth Cyngor gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae'r argymhellion yn y Cynllun Gweithredu fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod y manylion cywir yn cael eu cofnodi ar system Academy ar bob achlysur.**

# PRIDIANNAU TIR
## Cyfadran Adnoddau

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu chwiliadau pridiannau tir yn briodol ac y caiff ceisiadau eu hymateb yn unol â pholisi a thargedau'r Cyngor. Adolygu cofrestrau a gwirio bod yr incwm a dderbynnir yn gywir a phriodol.

Cwmpas yr Archwiliad

Dewis sampl o drafodion o'r Cyfriflyfr Ariannol a dadansoddi'r incwm a dderbynnir am geisiadau ac archwilio'r trefniadau mewn perthynas â'r ceisiadau hynny. Adolygu'r cofrestrau presennol i sicrhau eu bod yn cael eu cynnal mewn modd priodol, eu bod yn gyflawn ac yn gyfredol.

Prif Ddarganfyddiadau

Cynhaliwyd profion archwilio ar 19 rheolaeth fewnol. Dangosydd y profion fod rheolaethau mewnol da yn bodoli yn 10 o'r meysydd hyn.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn y broses o weinyddu Pridiannau Tir gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid cysylltu gyda gwasanaeth NLIS i'w hysbysu o'r angen i ddarparu datganiadau taliadau i'r Adain Pridiannau Tir.**
- **Dylid atgoffa adrannau o'r angen i ymateb i geisiadau o fewn y targed amser o bum diwrnod.**
- **Dylid cwblhau derbynneb ar bob achlysur y defnyddir incwm ar gyfer chwiliadau personol er sicrhau bod trywydd archwilio digonol yn bodoli.**
- **Dylid sicrhau bod y swyddogion perthnasol yn trefnu i dderbyn adroddiadau cyllidebol ar sail reolaidd er mwyn monitro bod yr incwm wedi cyrraedd y Cyfriflyfr Ariannol yn gywir.**
- **Dylai'r Rheolwr Cofrestru wneud cais i'r Uned Technoleg Gwybodaeth iddynt ddatblygu'r bas-data i sicrhau bod cyfeirnod ac enw'r sawl sy'n dileu'r cofnod yn cael ei gofnodi.**

Llyfryddiaeth:

Garner's Local Land Charges (13th Edition), Jan E. Boothroyd.

# CYDYMFFURFIAETH Â RHEOLIADAU CONSTRUCTION DESIGN MANAGEMENT (CDM)
## Cyfadran yr Amgylchedd

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod y Gwasanaeth Ymgynghoriaeth yn cydymffurfio gyda gofynion statudol Rheoliadau Rheolaeth Dylunio ac Adeiladwaith (CDM).

Cwmpas yr Archwiliad

Cwmpas yr archwiliad oedd cymryd sampl o brosiectau hysbysadwy Ymgynghoriaeth Gwynedd gan sicrhau bod y Gwasanaeth wedi cymryd camau i leihau risgiau iechyd a diogelwch drwy reoli prosiect yn unol â Rheoliadau CDM. Prif ymarferiad yr adroddiad oedd archwilio ffeiliau electronig y Gwasanaeth, sy'n cael eu cadw ar y dreif cyfrannol. Prif ffocws yr adroddiad oedd swyddogaeth y Cydlynydd CDM yn y prosiectau.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd bod penodi Cydlynydd CDM wedi safoni'r drefn o fewn Ymgynghoriaeth Gwynedd ar y ffordd y delir gydag oblygiadau Rheoliadau CDM. Mae gofynion cyfreithiol ar y Gwasanaeth i gydymffurfio gyda threfniadaeth CDM, er bod hyn yn gallu bod yn fiwrocrataidd ar adegau. Gwelwyd ar y cyfan bod y drefn yn cael ei dilyn, ond mae meysydd i wella'r trefniadau ymhellach. Rhestrir y prif wendidau fel a ganlyn:

- Diffyg apwyntio'r Cydlynydd CDM yn ffurfiol gan y client (gofyniad paragraff 14 o'r Rheoliadau);
- Oedi wrth hysbysu'r Gweithgor Iechyd a Diogelwch am y cynllun (gofyniad paragraff 21 o'r Rheoliadau);
- Dethol cwmnïau nad sydd wedi cofrestru gyda CHAS i dendro am y gwaith (gofyniad Polisi 9.21 Cyngor Gwynedd); a
- Contractwyr yn cychwyn ar y safle cyn cael awdurdod ffurfiol y Cydlynydd CDM (gofyniad paragraff 16 o'r Rheoliadau).

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhrefniadau Ymgynghoriaeth Gwynedd gogyfer cydymffurfio gyda Rheoliadau Construction Design Management (CDM). Mae'r prif argymhellion yn y cynllun gweithredu, ac angen sylw buan fel a ganlyn:**

- **Yn unol â'r Rheoliadau dylai'r client apwyntio'r Cydlynydd CDM yn ffurfiol mewn prosiectau hysbysadwy.**
- **Dylid anfon Ffurflen F10 i'r Gweithgor Iechyd a Diogelwch (yr "HSE") mor fuan ac sy'n rhesymol mewn prosiectau sy'n hysbysadwy.**
- **Dylid sicrhau bod cwmnïau wedi cofrestru gyda CHAS neu gydag achrediadau cyffelyb cyn iddynt gael eu gwahodd i dendro am waith gan y Gwasanaeth Ymgynghoriaeth.**
- **Ni ddylid caniatáu i'r contractwr ddechrau ar safle gwaith hyd fod caniatâd wedi ei roi yn ffurfiol bod y Gwasanaeth yn fodlon gyda'r Cynllun Cyfnod Adeiladwaith.**

# CANOLFAN AWYR AGORED RHYD DDU
## Cyfadran Datblygu

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau bod rheolaethau mewnol yn bodoli ac yn cael eu gweithredu yng Nghanolfan Awyr Agored Rhyd Ddu.

Cwmpas yr Archwiliad
Archwilio sampl o drafodion ariannol yn ôl y cyfriflyfr ar gyfer blwyddyn ariannol 2007/08 a 2008/09 a'u dilyn yn ôl i gofnodion y Ganolfan.

Prif Ddarganfyddiadau
Cynhaliwyd profion archwilio ar 24 o feysydd rheolaeth mewnol. Dangosodd y profion fod rheolaethau da yn bodoli mewn 19 o'r meysydd hyn.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yng Nghanolfan Awyr Agored Rhyd Ddu gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid ystyried sefydlu trefn o dderbyn % o'r gost llogi fel blaendal gan fudiadau sydd y tu allan i Wynedd.**
- **Dylid sicrhau fod anfonebau yn cael eu codi'n brydlon ar ddefnyddwyr y Ganolfan.**
- **Dylid cadw llyfryn priodol i gofnodi manylion yr arian a gesglir o'r ffôn talu, a dylai'r ddau berson sy'n bresennol pan wagir y ffôn sicrhau eu bod yn dyddio ac arwyddo'r cofnod fel prawf eu bod yn bresennol.**

## CYFRANIADAU GWRESOGI GAN DENANTIAID
### Cyfadran Gofal

Bwriad yr Archwiliad

Sicrhau fod trefn effeithlon o reoli, casglu a bancio cyfraniadau gwresogi gan denantiaid. Rhoddir sylw i'r amcanion rheolaeth canlynol:

- Sicrhau fod y cyfraniadau yn unol â pholisi'r Gwasanaeth,
- sicrhau y derbynnir cyfraniad gan bob client perthnasol,
- sicrhau fod y cyfraniad yn gywir, cyflawn a phrydlon,
- sicrhau fod y wybodaeth ar y cyfriflyfr yn gywir,
- sicrhau bod rheolaeth gyllidebol ddigonol,
- sicrhau fod rheolaethau yn bodoli i atal twyll,
- sicrhau fod y drefn bancio arian yn gywir.

Cwmpas yr Archwiliad

Adolygu trefniadau derbyn incwm, cofnodi a chymodi gyda'r systemau ariannol perthnasol.

Prif Ddarganfyddiadau

Cynhaliwyd profion archwilio ar 27 o reolaethau mewnol. Dangosodd y profion fod rheolaethau mewnol da yn bodoli mewn 25 o'r meysydd hyn.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yng ngweinyddiaeth Cyfraniadau Gwresogi gan Denantiaid gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae'r argymhellion yn y cynllun gweithredu ac angen sylw buan fel a ganlyn:**

- **Mae angen i Uwch Gyfrifydd Tai arwyddo a dyddio'r gwiriad er mwyn cadarnhau ei fod wedi cymryd lle.**
- **Angen sicrhau bod 2 berson wedi arwyddo'r daflen bancio a'r llyfr talu i mewn.**

# MENTER "YMA I HELPU"
## Cyfadran Gofal - Gwasanaethau Tai

Bwriad yr Archwiliad

Sicrhau bod trefniadau ariannol Menter "Yma i Helpu" yn briodol ac yn unol â Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor.

Cwmpas yr Archwiliad

Archwiliwyd sampl o'r prif feysydd gwariant ac incwm yn ôl y cofnod yng nghyfriflyfr 2007-08 a 2008-09 ynghyd a threfniadau rheolaeth y cynllun.

Prif Ddarganfyddiadau

Cynhaliwyd profion archwilio ar 38 o reolaethau mewnol. Dangosodd y profion fod rheolaethau mewnol da yn bodoli mewn 30 o'r meysydd hyn.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Menter "Yma i Helpu"' gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae'r prif argymhellion a ddynodir yn y cynllun gweithredu ac angen sylw buan fel a ganlyn:**

- **Dylai'r cytundeb rhwng yr Awdurdod â Nwy Phrydain gael ei weithredu fel gweithred a'i arwyddo gan swyddog awdurdodedig y Cyngor.**
- **Dylid y cytundeb nodi'r angen am yswiriant penodol er mwyn cael diogelwch digonol.**

Llyfryddiaeth

Cynhesu Tai am Bris Llai, Gweithredu ar Gynhesrwydd Fforddiadwy Yng Ngwynedd 2006-2008.

Rheolau Gweithdrefn Contractau: Adran 29, Cyflawni Contractau.

# COSTAU GWEITHWYR CEFNOGOL
## Cyfadran Gofal

Bwriad yr Archwiliad

Sicrhau fod trefn effeithlon o reoli gwariant ar gyflogau a chostau teithio Gweithwyr Cefnogol. Rhoddir sylw i'r amcanion rheolaeth canlynol:

- Sicrhau fod costau cyllidebol priodol ar gyflogau,
- Sicrhau fod trefn briodol ar benodi a therfynu cyflogaeth,
- Sicrhau fod y taflenni amser yn gywir ac wedi eu cymeradwyo i'w talu,
- Sicrhau fod trefn effeithlon o gofnodi oriau gweithio ac absenoldebau,
- Cedwir cofnodion priodol i gefnogi cymeradwyo statws defnyddiwr,
- Bod yr holl ddefnyddwyr gydag yswiriant digonol,
- Cedwir cofnodion priodol o'r holl dreuliau busnes swyddogol a hawlir,
- Dylai bod y ceisiadau am deithio a chynhaliaeth yn bona fide,
- Dylai bod gwahaniad dyletswyddau yn bodoli yn y drefn o brosesu'r ceisiadau,
- Cedwir cofnodion priodol o'r holl daliadau a wneir mewn perthynas â theithio a chynhaliaeth,
- Diweddarir yr holl gofnodion perthnasol i gofnodi'r trafodion, a
- Cedwir y cofnodion yn ddiogel.

Cwmpas yr Archwiliad

Adolygu'r trefniadau mewn trawsdoriad o Swyddfeydd Ardal a'r Uned Gyflogau. Dewis sampl archwilio yn ôl perfformiad cost cyflogau yn erbyn y gyllideb yn 2007-2008.

Prif Ddarganfyddiadau

Cynhaliwyd profion archwilio ar 53 o reolaethau mewnol. Dangosodd y profion fod rheolaethau mewnol da yn bodoli mewn 38 o'r meysydd hyn.

**Barn yr Archwiliad**

**(B)** **Barn yr archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn 'Costau Gweithwyr Cefnogol' gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae'r prif argymhellion a ddynodir yn "Uchel" yn y cynllun gweithredu ac angen sylw buan fel a ganlyn:**

- **Dylai defnyddio llythyr swyddogol i gadarnhau terfyniad cyflogaeth gweithwyr ym mhob achlysur.**
- **Dylid sicrhau bod pob taliad wedi ei gyfeirebu'n gywir.**
- **Angen sicrhau bod swyddogion gydag yswiriant cerbyd digonol trwy dderbyn tystiolaeth mor fuan â phosib ar ôl i'r cytundeb blaenorol ddiweddu.**
- **Mae angen i bob rheolwr llinell wirio'r ceisiadau a'i arwyddo i gadarnhau bod y cais yn bona fide a chywir.**
- **Mae angen sicrhau bod y costau teithio a hawliwyd yn unol â pholisi'r Cyngor a'i fod wedi ei gymhwyso yn gyson ar draws pob gwasanaeth fel bod holl weithwyr cefnogol yn derbyn costau teithio llawn.**
- **Mae angen sicrhau bod gwahaniad dyletswyddau rhwng y swyddog sydd yn paratoi'r swp o geisiadau a'r swyddog sydd yn gyfrifol am fewnbynnu'r manylion.**

# CANOLFANNAU DYDD A GWEITHDAI ANABLEDD DYSGU
# ARDAL DWYFOR
## Cyfadran Gofal

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau fod rheolaeth fewnol ddigonol yn nhrefniadau'r Canolfannau Dydd a Gweithdai Anabledd Dysgu yn yr Ardal Dwyfor.

Cwmpas yr Archwiliad
Archwiliwyd prif feysydd ariannol y sefydliadau yn ôl y cofnodion yng nghyfriflyfr 2007/08 yn ogystal ar reoliadau perthnasol i Iechyd a Diogelwch. Dewiswyd y sampl archwilio yn ôl dadansoddiad o benawdau gwariant ac incwm fesul sefydliad a chymharu ar draws sefydliadau, er mwyn canolbwyntio ar yr agweddau priodol mewn sefydliadau unigol ac mewn gwahanol ardaloedd.

Prif Ddarganfyddiadau
Cynhaliwyd profion archwilio ar 54 o reolaethau mewnol. Dangosodd y profion fod rheolaethau da yn bodoli mewn 40 o'r meysydd hyn.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn rheolaeth y Canolfannau Dydd a Gweithdai Anabledd Dysgu yn ardal Dwyfor gan fod rheolaethau mewn lle ond bod rhai agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau. Mae'r argymhellion a ddynodir yn y cynllun gweithredu ac angen sylw buan fel a ganlyn :**

- **Mae angen dadansoddi yn fanwl y rhesymau dros orwariant ym Melin Glanrafon dros y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf a defnyddio'r wybodaeth yma er mwyn ystyried y camau sydd angen eu cymryd i sicrhau nad oes gorwariant yn y dyfodol.**
- **Dylid sicrhau fod cyfradd cyflog cyson yn cael ei dalu i weithwyr a bod y cyflog yma dim mwy na'r uchafswm a ganiateir. Dylid ystyried fod cyfradd cyflog gweithwyr yn cael ei adolygu a chymeradwyo yn flynyddol.**
- **Dylid cadw cofrestr clientau sydd yn mynychu'r canolfannau yn ddyddiol a dangos yn glir ar y gofrestr os yw'r client yn gweithio ar y diwrnod hwnnw. Dylai hwn wedyn gael ei wirio gan swyddog annibynnol o'r ganolfan i wirio fod yr unigolion a delir yn gyson a'r rhestr clientau sy'n mynychu'r sefydliad.**
- **Dylid sicrhau fod taflenni'r llyfr log yn cael ei gwirio yn drylwyr a'i arwyddo i gadarnhau fod gwiriad wedi ei wneud. Dylid gwirio yn rheolaidd fod y milltiroedd yn cysoni gyda'r milltiroedd ar y cerbyd.**